**Rhif:** WG38353

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020

Dyddiad cyhoeddi: 19 Rhagfyr 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron 2016 ISBN Digidol 978-1-23933-619-5

# Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Darperir y ddogfen hon ar gyfer pob ysgol, awdurdod lleol, awdurdod esgobaethol, undeb athrawon, sefydliad addysg bellach, ac ar gyfer Estyn a phartïon eraill a chanddynt fuddiant. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ynghylch Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at:<br>Y Gangen Cyllid ac Arolygu<br>Yr Is-adran Addysg, Cynllunio Busnes a Llywodraethiant<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: Addysg-CynllunioBusnesaLlywodraethiant@llyw.cymru |
| **Copïau ychwanegol** | Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn:<br>https://llyw.cymru/ymgyngoriadau<br><br>Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill. |
| **Dogfennau cysylltiedig** | : https://www.estyn.llyw.cymru/dogfen/ymatebion-i%E2%80%99r-ymgynghoriad-ar-flwyddyn-bontio-arfaethedig-estyn-yn-2020%E2%80%932021-blwyddyn |

## Contents

**Cyflwyniad** .......... **2**
**Crynodeb o'r ymatebion** .......... **3**
Cafwyd atebion gan ddeunaw o ymatebwyr. Gellir gweld rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad 1. .......... 3
Cwestiwn 1 .......... 3
    Dadansoddiad cryno .......... 3
    Ymateb Llywodraeth Cymru .......... 4
Cwestiwn 2 .......... 4
    Dadansoddiad cryno .......... 4
    Ymateb Llywodraeth Cymru .......... 5
Cwestiwn 3 .......... 5
    Dadansoddiad cryno .......... 5
    Ymateb Llywodraeth Cymru .......... 5
Cwestiwn 4 .......... 5
    Dadansoddiad cryno .......... 6
    Ymateb Llywodrath Cymru .......... 6
**Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr** .......... **7**

# Cyflwyniad

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar wneud Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020. Mae'r rheoliadau hyn yn ymestyn y cylch arolygu presennol ar gyfer addysg feithrin, ysgolion a gynhelir, gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion ac addysg grefyddol a ddarperir mewn ysgolion a gynhelir, gwasanaethau gyrfaoedd a gwasanaethau cysylltiedig a lleoliadau addysg bellach o 7 i 8 mlynedd ar gyfer un cylch yn unig (2016-2024).

Diben ymestyn y cylch arolygu presennol yw ei gwneud yn bosibl atal yn rhannol arolygiadau ysgolion sydd i'w cynnal yn ystod 2020-21.

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau penodol a ofynnwyd ac mae'n amlinellu'r llwybr arfaethedig ar gyfer y dyfodol.

## Crynodeb o’r ymatebion

Cafwyd atebion gan ddeunaw o ymatebwyr. Gellir gweld rhestr o’r ymatebwyr yn Atodiad 1.

### Cwestiwn 1

Ydych chi'n cytuno y dylid gwneud Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â’r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020 a fydd yn dod i rym ar 1 Medi 2020 i alluogi atal arolygiadau ysgolion yn rhannol yn ystod 2020-2021?

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno |
|---|---|---|
| 15 | 0 | 3 |
| 83% | 0% | 17% |

**Dadansoddiad cryno**

Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn cefnogi’r cynnig hwn.

Ni ddarparwyd unrhyw sylwadau na rhesymau dros anghytuno gan ddau o’r tri ymatebwr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno. Gwnaed sylw gan yr ymatebwr arall nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno ei fod yn cefnogi’r cynnig i atal arolygiadau yn rhannol, ond nad oedd yn eglur sut y byddai rhaglen o ymweliadau ymgysylltu yn helpu ysgolion. Teimlai hefyd y byddent yn tynnu sylw ysgolion ac yn llwyth gwaith beichus. Ym marn yr ymatebwr, dylid tynnu’r cynnig yn ôl. Cododd yr un ymatebwr bryderon nad oedd cynllun gweithredu strategol ar gyfer diwygio’r cwricwlwm.

Mae cefnogaeth lethol i atal arolygiadau’n rhannol gan roi amser i ysgolion ganolbwyntio ar y newidiadau a’u sefydlu, yn unol â’r cwricwlwm newydd. Bydd hefyd yn caniatáu i arolygwyr Estyn gefnogi ysgolion a datblygu dealltwriaeth o’r broses ddiwygio, ac addasu eu harferion i sicrhau bod unrhyw drefniadau arolygu yn y dyfodol yn addas i’w diben. Dywedodd ymatebwyr eu bod yn croesawu’r syniad o Estyn fel arolygiaeth ‘sy’n gwrando’; ac y bydd y cynnig hwn yn darparu cyfle i Estyn gydweithio ag ysgolion ac yn ei gwneud yn bosibl gwneud gwaith paratoadol a gwaith peilot.

Cwestiynodd un ymatebwr yr ‘hyblygrwydd’ i Estyn gael atal arolygiadau mewn lleoliadau eraill a ragnodir yn y rheoliadau arolygu presennol; er ei fod yn croesawu’r hyblygrwydd i atal yn rhannol, gofynnodd am eglurder cyn gynted â phosibl ar gyfer y sectorau hynny, er mwyn darparu sicrwydd i’r holl bartïon perthnasol.

Dywedodd ymatebwr arall, er ei fod yn nodi’r ddogfen yn ymateb i’r ymgynghoriad ynghylch rôl Estyn yn ystod y cyfnod hwn, roedd yn edrych ymlaen at gael eglurder llwyr i arweinwyr ysgolion ynghylch yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan yr arolygiaeth yn y cyfnod hwn.

Soniodd un ymatebwr fod rhaid i rai arolygiadau dros dro o leiaf gael eu cynnal ar gyfer yr ysgolion hynny sydd angen mwy o gymorth a theimlai un ymatebwr y dylai’r cyfnod atal arolygiadau’n rhannol fod yn hwy ac y dylai gynnwys rôl y cynghorwyr herio hefyd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ganlyniad i'r gefnogaeth fawr i'r cynnig, bydd Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020 yn dod i rym ar gyfer mis Medi 2020, i'w gwneud yn bosibl atal arolygiadau'n rhannol yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd gweithgarwch arolygu a monitro digonol yn parhau mewn ysgolion sy'n destun pryder.

Nodwyd y sylwadau ynghylch yr ymweliadau ymgysylltu a rôl yr Arolygiaeth ac fe'u pasiwyd ymlaen i Estyn i'w hystyried. Mewn ymateb i'r sylwadau ynghylch y rheoliadau'n darparu hyblygrwydd i atal arolygiadau mewn lleoliadau eraill os bydd angen, rhagwelir mai dim ond atal arolygiadau'n rhannol ar gyfer ysgolion meithrin a gynhelir, ysgolion a gynhelir ac Unedau Cyfeirio Disgyblion y bydd Estyn yn 2020-2021. Fodd bynnag, petai Estyn yn penderfynu ymestyn y cynnig i sectorau eraill a gynhwysir yn y rheoliadau, byddai'r sectorau hynny'n cael gwybod ar unwaith.

Mewn ymateb i'r sylw ynghylch cynllun gweithredu strategol ar gyfer diwygio'r cwricwlwm, byddwn yn ei ystyried ymhellach yng ngoleuni'r amserlen hirach

## Cwestiwn 2

Hoffem glywed eich safbwyntiau ar effeithiau sefydlu Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020 ar yr iaith Gymraeg, ac yn benodol ar: i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ii) sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

**Dadansoddiad cryno**

Darparwyd sylwadau gan naw o ymatebwyr.

Roedd un ymatebwr o'r farn bod angen pwysoli ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn gyfartal. Roedd un arall yn credu bod y cwricwlwm newydd yn rhoi mwy o bwyslais ar y Gymraeg ac felly y byddai'r cynnig i atal arolygiadau Estyn dros dro yn rhoi gwell cyfle i weithwyr proffesiynol gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm newydd - a thrwy hynny wella mynediad at yr iaith. Fodd bynnag, mae'r ymatebwr hefyd o'r farn na chyrhaeddir targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050 os nad ydym yn buddsoddi yn y gwaith o gefnogi a hyfforddi ein gweithlu presennol.

Roedd ymatebwr arall yn meddwl y bydd rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith yn ei gwneud yn bosibl i ysgolion gryfhau datblygiad sgiliau plant yn y Gymraeg drwy gyflwyno'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Roedd sawl ymatebwr yn rhagweld na fyddai unrhyw oblygiadau sylweddol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Cafodd materion yn ymwneud â'r Gymraeg eu hystyried wrth lunio'r diwygiadau arfaethedig. Ni chododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad unrhyw faterion sy'n gofyn am newid y diwygiadau mewn perthynas â'r Gymraeg.

## Cwestiwn 3

Eglurwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid llunio neu newid Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020 er mwyn i) cael effaith gadarnhaol neu fwy o effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ii) sicrhau nad oes effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Dadansoddiad cryno**

Darparwyd sylwadau gan naw o ymatebwyr.

Roedd pump o'r ymatebwyr o'r farn na fyddai unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol wrth i gynigion Llywodraeth gael eu gweithredu.

Nododd un ymatebwr fod angen sicrhau bod cyfleoedd addas, digonol a lleol i ymarferwyr addysg, o'r blynyddoedd cynnar ymlaen, fynd i sesiynau gwybodaeth a hyfforddi yn Gymraeg ar y system arolygu newydd.

Roedd ymatebwr arall yn meddwl y gallai'r newidiadau gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, gan y byddant yn rhoi mwy o gyfle i weithwyr addysg proffesiynol gynllunio ar gyfer y cwricwlwm a thrwy hynny, wella mynediad at yr iaith. Nododd eraill y dylid pwysoli ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn gyfartal ac y byddai llai o amser rhwng ymweliadau a deialogau proffesiynol yn cael effaith gadarnhaol ar wella cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a'i datblygu ymhellach. Nodwyd hefyd bod angen sicrhau bod dulliau gweithredu arolygwyr Estyn yn gyson, ac yn unol â chategorïau ieithyddol a lleoliadau daearyddol ysgolion.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r ymatebion yn awgrymu na fydd unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol, felly caiff y Rheoliadau eu gwneud

## Cwestiwn 4

Rydym ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

**Dadansoddiad Cryno**

Gan fod Llywodraeth Cymru wedi paratoi ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd mewn lleoliadau nas cynhelir ar sail amserlen sy'n arafach nag amserlen y cwricwlwm ysgol, gofynnodd yr ymatebwyr a fydd cyfnod o ohirio'r adolygiadau ar gyfer hyn sector er mwyn sicrhau tegwch. Gofynnodd yr ymatebwyr hefyd a yw Estyn yn bwriadu cynnal rhaglen hyfforddi ar sut y byddant yn arolygu meysydd dysgu a phrofiad Cymru 2022.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

## Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr

- Voice Cymru
- Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau
- Estyn
- CLlLC a CCAC
- UCAC
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- National Education Union Cymru
- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau
- Cydag Uwchradd
- Ysgol Gynradd Seaview
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Mudiad Meithrin

- Dewisodd 6 ymatebwr fod yn ddienw